

Annwyl [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth],

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 25 Awst 2021 ynghylch yr adolygiad ffurfiol y gofynnwyd amdano gan ### ## yn dilyn ein hymateb i'w gais am y tendr buddugol a gyflwynwyd i'n contract Ymgynghoriaeth Dylunio (Achos Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Cyfeirnod: IC-94480-B9X1). Mae eich cwestiynau, a'n hatebion ni iddynt, wedi'u crynhoi isod.

- 1. Mae'n bosibl y gallai gwybodaeth, yr ystyriwyd ei bod wedi'i heithrio sawl mis yn ôl, fod yn wybodaeth y gellir ei datgelu erbyn hyn. Barn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yw y dylai unrhyw gwmni sy'n tendro am gcontractau sector cyhoeddus fod yn ymwybodol bod awdurdodau cyhoeddus yn destun Rhyddid Gwybodaeth a dylent ddisgwyl i rywfaint o'r wybodaeth maent yn ei chyflwyno gael ei datgelu i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn enwedig pan fo'r wybodaeth hon yn ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus. Yn sgil hyn, os gall TrC ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd wedi'i dal yn ôl, dylid ei rhoi'n uniongyrchol i'r achwynydd, gan anfon copi at y Comisiynydd. Pan fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu, ni fydd yn parhau i fod yn rhan o ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.**

Rydym wedi adolygu tendr llwyddiannus Rype Office ac wedi rhyddhau'r hyn nad yw, yn ein barn ni, wedi'i eithrio rhag cael ei ddatgelu (mae'r ICO wedi cael copi o'r ohebiaeth hon gyda'r ymgeisydd). Roedd cydbwysedd y contract dan sylw wedi'i bwysoli tuag at yr ateb ansoddol, gyda phwyslais ar gynaliadwyedd ac arloesedd yn ogystal â gofynion tendr nodweddiadol, fel cynnyrch a phrisiau. Rydyn ni felly'n dal i ddweud bod angen golygu symiau sylweddol o'r cais.

- 2. Darparwch gopi o unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chadw'n ôl mewn perthynas â'r cais, ac ni fydd yn cael ei rhyddhau i'r achwynydd. Bydd hyn yn caniatáu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch defnydd TrC o eithriadau. Gan eich bod yn dibynnu ar fwy nag eithriad, gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth sy'n cael ei dal yn ôl wedi'i marcio'n glir i ddangos pa eithriad(au) sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i bob rhan o'r wybodaeth sy'n cael ei dal yn ôl.**

Gweler yr atodiadau e-bost canlynol i gyd-fynd â'r llythyr hwn:

- i) Ymateb i'r holiadur tendro
- ii) Ymateb masnachol
- iii) Dyluniad Lefel 3
- iv) Rhaglen waith

- 3. Esboniwch a darparwch dystiolaeth i gefnogi'r safbwynt bod unrhyw ran o'r wybodaeth a gedwir yn ôl yn gyfrinach fasnach. Er enghraifft, a yw'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i gael mantais gystadleuol, ond nid yw hynny'n hysbys yn gyffredinol yn y fasnach neu'r busnes hwnnw? A oes camau'n cael eu cymryd i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol?**

Rydyn ni'n honi'n bendant bod cyfran sylweddol o'r wybodaeth a roddwyd gan Rype Office yn gyfrinach fasnach. Er nad yw'r hyn y maent yn ei gynnig yn gyfrinach fasnach, dyluniad yr ateb a'r ffordd y mae'r ateb a gynigir yn cael ei amlinellu yn eu tendr buddugol yw'r gyfrinach fasnach yn yr achos hwn. Fel y nodwyd uchod, er mwyn ennill y contract, roedd yn rhaid i'r cynigydd llwyddiannus ddangos ateb ansoddol gyda phwyslais sylweddol ar gynaliadwyedd ac arloesi. Yr ateb a amlinellwyd yng nghais llwyddiannus Rype Office a sicraodd y contract iddynt. Nid yw'r ateb, na'r fethodoleg sy'n sail i'r ffordd y darperir yr ateb hwnnw, yn hysbys i'r diwydiant ehangach, a dyma gyfrinach fasnach Rype Office. Yn ddealladwy, nid yw Rype Office wedi hysbysebu manylion eu hateb er mwyn rhoi mantais i'w cystadleuwyr. Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn rhoi darlun llawn gwybodaeth i gystadleuwyr o'r ffordd y strwythurodd Rype Office ei gais buddugol; gan ddatgelu'r ateb cyffredinol, lefel y manylder, y pynciau a'r materion a godwyd, y dyluniad a'r cynllun.

Yn arbennig, yn yr achos hwn, mae'r yr ymgeisydd yw ### o #####, sy'n cynnig cymorth i fudiadau sy'n gwneud ceisiadau am dendrau. O'r herwydd, mae risg sylweddol y byddai'r ymgeisydd, y tu hwnt i'r wybodaeth fasnachol sensitif sy'n ymwneud â'r cynhyrchion, y gwasanaethau a'r prisiau; gallai'r ymgeisydd elwa o'r ateb buddugol sydd wedi'i amlinellu yn y tendr a gyflwynwyd, gan efallai roi mantais annheg i ### a chystadleuwyr eraill Rype Office. Nid ydym yn credu bod y cais hwn wedi'i wneud yng ngwir ysbryd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan ei bod yn debygol fod yr ymgeisydd yn ceisio sicrhau buddiant busnes preifat yn hytrach na budd y cyhoedd.

4. **Ynghylch effaith niweidiol datgelu: Gan nad yw'n glir o ohebiaeth TrC gyda'r achwynydd a'r ymatebion hyd yma, a fydddechystal â chadarnhau pa drothwy tebygolrwydd y mae TrC yn dibynnu arno. Mae'r trothwy isaf yn nodi y byddai datgelu 'yn debygol' o gael effaith niweidiol. Mae'r trothwy uchaf yn nodi y byddai datgelu 'yn' cael effaith niweidiol.**

Mae TrC yn dibynnu ar y trothwy isaf o effaith niweidiol. Fodd bynnag, dylid nodi mai ein rheswm dros ddibynnu ar y trothwy isaf yw'r ffaith na allwn ddweud yn gwbl bendant y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn cael effaith niweidiol; ac eto, ein dadl ni yw bod risg *sylweddol* y gallai datgelu gael effaith niweidiol. Amlinellir ein dadl lawn mewn ymateb i gwestiwn 6.

5. **Cadarnhewch buddiannau masnachol pwyl, yn eich barn chi, fyddai'n cael eu niweidio neu a fyddai'n debygol o gael eu niweidio drwy ddatgelu'r wybodaeth a ddaliwyd yn ôl (hy: buddiannau TrC ei hun, buddiannau unrhyw drydydd parti, neu'r ddau.)**

Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn niweidiol i fuddiannau masnachol Rype Office a'u partneriaid. Fel y nodwyd yn ein hymateb i gais yr ymgeisydd am adolygiad mewnol, dyfalu fydddech chi pe baech chi'n awgrymu na fydd unrhyw sefydliad arall yn y sector cyhoeddus yn gweithredu'n union yr un fath ag y gwnaeth TrC yn y dyfodol. I'r gwrthwyneb, mae gennym dystiolaeth y bydd sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Contractau Cyfleustodau yn caffael prosiectau tebyg iawn yn y dyfodol agos. Ysbrydolwyd y modd y dodrefnwyd prif swyddfa newydd TrC ym Mhontypridd gan y gwaith o adnewyddu Llyfrgell Abertawe yn 2015 ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yng Nghaerdydd ac Abertawe yn 2016; ac ers cwblhau'r gwaith o ddodrefnu ein prif swyddfa, mae Archwilio Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water wedi cysylltu â ni i holi sut y trefnwyd ein proses dendro (sylwer na rannwyd y cynigion eu hunain) gan eu bod yn dymuno sicrhau canlyniadau tebyg (gweler yr ohebiaeth sydd wedi'i chynnwys fel atodiad e-bost).

Yn benodol, petai unrhyw sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dylunio gofod swyddfa newydd, byddent yn rhwym wrth yr un gofynion â TrC yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion/egwyddorion cynaliadwyedd eraill yng Nghymru. O'r herwydd, mae'n debygol iawn y byddai'r un ymgeiswyr ar gyfer tendr TrC yn gwneud cais am dendr tebyg yn y dyfodol, gan gynnwys Rype Office. Ar ben hynny, gan fod cylch gwaith TrC yn prysur ehangu, mae'n debygol y byddwn yn cynnal proses dendro debyg yn y dyfodol os bydd angen mwy o ofod swyddfa i ddarparu ar gyfer y twf yn ein sefydliad. Rydyn ni eisoes ar gamau cynnar y broses o wneud trefniadau ar gyfer swyddfa TrC yng Ngogledd Cymru. Yn yr un modd, bydd angen i unrhyw dendr am ddodrefnu yn y dyfodol gydymffurfio â'r un egwyddorion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynaliadwyedd.

Gall datgelu'r wybodaeth hefyd niweidio buddiannau masnachol TrC o ran cyfyngu'r farchnad ar gyfer contractau tebyg yn y dyfodol ar gyfer dodrefnu adeiladau TrC lle gallem golli hyder cyflenwyr; ac ar gyfer unrhyw gontract arall y byddwn yn ei gaffael o ystyried pwyslais sector cyhoeddus Cymru ar gynaliadwyedd, llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yr economi gylchol ac arloesi.

6. **Rhowch esboniad manwl i gefnogi'r safbwynt y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn debygol o niweidio buddiannau masnachol unrhyw barti. Darparwch dystiolaeth sy'n dangos cysylltiad clir rhwng datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn gwirionedd ac unrhyw niwed i**

fuddiannau masnachol a allai godi. Esboniwch sut y byddai datgelu yn niweidio buddiannau masnachol y parti.

Mae cysylltiad clir a diamheuol rhwng datgelu tendr llwyddiannus Rype Office a niweidio eu buddiannau masnachol. Yn yr achos hwn, mae perygl y gallai'r ymgeisydd (sydd â busnes o ddrafftio ceisiadau tendro) ddefnyddio'r syniadau, y dulliau, y cysyniadau a'r datblygiadau arloesol gwreiddiol a geir yn y tendr a gyflwynwyd gan Rype Office wrth gynorthwyo cystadleuwyr gyda'u gwaith o ysgrifennu bidiau. Gallai hyn roi mantais annheg i gystadleuwyr ### ## a Rype Office wrth ddrafftio tendrau a gyflwynir yn y dyfodol. Pe bai TrC, o ganlyniad i ddatgelu'r wybodaeth hon, yn cael nifer o geisiadau sydd bron yn union yr un fath i dendr tebyg yn y dyfodol, ni fyddai Rype Office yn dal i sefyll allan fel gwir ffynhonnell eu datrysiad arloesol ac, yn lle hynny, byddai'n rhaid iddynt gystadlu ar yr un lefel â chystadleuwyr eraill, sefyllfa a fyddai wedi cael ei dylanwadu'n artiffisial er budd y cystadleuwyr eraill ac nid Rype Office. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y gallai contract gael ei ddyfarnu i unrhyw un o gystadleuwyr Rype Office, gan arwain yn uniongyrchol at golli busnes i'r cwmni. Drwy ddatgelu'r wybodaeth hon, mae'n amlwg y byddai TrC yn datgelu cyfrinachau masnach Rype Office a phwyntiau gwerthu unigryw eu cais, a'u helpodd i ennill y contract dan sylw.

7. Rydych yn datgan y byddai datgelu yn niweidio buddiannau masnachol partïon ar wahân i TrC, neu y byddai'n debygol o wneud hynny. Eglurwch ar ba sail y gwnaethoch chi ddod i'r casgliad hwn a darparwch gopïau o unrhyw ohebiaeth a gafodd yr awdurdod gydag unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r cais hwn.

Yn rhinwedd fy swydd fel Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol TrC, rwyf wedi trafod y mater hwn yn uniongyrchol gyda rheolwr gyfarwyddwr Rype Office dros y ffôn a drwy e-bost (mae'r ohebiaeth wedi'i chynnwys fel atodiad e-bost). Roedd rheolwr gyfarwyddwr Rype yn glir yn yr hyn a oedd yn ei farn ef yn gyfrinachau masnach a dywedodd y byddai hyd yn oed yn llai parod i ryddhau agweddau ansoddol y cais na'r agweddau masnachol, er ei fod hefyd yn pwysleisio na ddylai'r agweddau masnachol, yn ei farn ef, gael eu datgelu chwaith.

8. Rydych yn datgan y byddai datgelu yn caniatáu i gontractwyr eraill ddefnyddio'r wybodaeth er eu mantais hwy. Os ydych chi'n dadlau y byddai datgelu yn rhoi deiliad presennol y contract dan anfantais pan fyddant yn ail-dendro, mae angen i chi ddangos eich bod yn disgwyl iddynt ail-dendro. Os ydych chi'n poeni y gallai datgelu niweidio buddiannau masnachol deiliad presennol y contract wrth dendro am gontractau gyda sefydliadau eraill, mae angen i chi ddangos:

- a) y tebygolrwydd y byddant yn cymryd rhan mewn ymarferion tendro eraill;
- b) i ba raddau y byddai'n cynnwys gwybodaeth debyg; a
- c) pam y byddai ei datgelu yn eu rhoi dan anfantais, neu'n debygol o wneud hynny. Rhowch eich sylwadau ar y pwynt hwn, ac unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich safbwynt.

Rydym yn credu y bydd datgelu yn niweidio buddiannau masnachol deiliad presennol y contract (Rype Office) wrth dendro am gontractau gyda sefydliadau eraill.

- a) Mae'r tebygolrwydd uchel iawn y bydd Rype Office yn cymryd rhan mewn ymarferion tendro tebyg eraill. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiectau a gwblhawyd gan Rype Office ar gael yma: [Prosiectau Rype Office: Mannau gwaith gwych sy'n ddeniadol, yn gynaliadwy ac yn costio llai](#). Bydd Rype Office yn parhau i gystadlu am gontractau o'r fath wrth i'r galw am fannau gwaith cynaliadwy gynyddu, gan mai dyma union natur eu busnes.
- b) Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, egwyddor datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo'r economi gylchol ac annog arloesi. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd nifer cynyddol o gyrff sector cyhoeddus Cymru sy'n dymuno dodrefnu'r gweithle yn cynnal

ymarfer tendro tebyg iawn i'n rhai ni. Ategir y ddatl hon gan y ffaith bod un sefydliad sector cyhoeddus a chwmni arall o Gymru sy'n rhwym wrth y Rheoliadau Contractau Cyfleustodau wedi gwneud ymholiadau ynghylch ein manyleb ar gyfer y contract hwn gan eu bod yn dymuno sicrhau canlyniad tebyg (gweler cwestiwn 5).

c) Amlinellir ein datl mewn perthynas â'r pwynt hwn yn llawn yn ein hymateb i gwestiwn 6.

9. Cadarnhewch pa wybodaeth a ddarparwyd i ddarpar dendrwy'r ddechrau'r ymarfer tendro hwn ynghylch beth fyddai'n digwydd i'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt fel rhan o'u tendr.

Gweler y dyfyniad isod, a gymerwyd o Atodiad A ein Gwahoddiad i Dendro:

6. Atodiad B: Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- 6.1 Pwrpas yr Hysbysiad hwn rhoi gwybod i Ddarparwyr Posibl bod Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi dod i rym ar 1 Ionawr 2005. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i unrhyw wybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdodau cyhoeddus fod ar gael i'r cyhoedd ar eu cais. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf a gall osod yr un gofynion ar y *Cyflogwr*.
- 6.2 Felly, ar ôl i Lywodraeth Cymru gael cais ysgrifenedig gan aelod o'r cyhoedd i ryddhau gwybodaeth yn ei feddiant, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio oni bai ei fod yn gallu defnyddio un o'r eithriadau cyfyngedig sydd ar gael o dan y Ddeddf mewn perthynas â chais o'r fath.
- 6.3 Gallai cais o'r fath fod yn berthnasol i'ch tendr. Felly, efallai y bydd dyletswydd statudol ar y *Cyflogwr* i ryddhau holl o gynnwys y tendr, neu ran ohonno, i drydydd parti. Os oes gan Ddarparwyr Posibl unrhyw bryderon neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnynt am sut mae'r Ddeddf yn gweithio, byddem yn eu cynghori i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.
- 6.4 Mae'n ofynnol i Ddarparwyr Posibl lenwi'r adran isod a dychwelyd y ffurflen hon gyda'u tendr.
- 6.5 Rwyf i/rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, drwy hyn yn cadarnhau fy mod/ein bod yn cydnabod ac yn derbyn darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a sut y gallent fod yn berthnasol i fy nhendr/ein tendr.

10. Pa ddadleuon budd y cyhoedd o blaid datgelu'r wybodaeth sydd wedi cael eu hystyried?

11. Pa ddadleuon budd y cyhoedd o blaid cadarnhau adrannau 43(1) a 43(2) sydd wedi cael eu hystyried? Darparwch sylwadau ar wahân ar gyfer pob eithriad.

12. Eglurwch pam eich bod o'r farn bod budd y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl. Rhowch fanylion unrhyw ymarfer pwysoli penodol sydd wedi cael ei gynnal.

Rhoddir y canlynol mewn ymateb i gwestiynau 10, 11 a 12:

Mae TrC yn deall yr angen i ystyried dadleuon budd y cyhoedd yn wrthrychol, gan gydnabod bod modd bron bob amser i gyflwyno dadleuon ar y ddwy ochr. Rydym yn cydnabod bod budd y cyhoedd mewn tryloywder ac atebolrwydd i hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd ac i ddangos bod cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau da. Ac eto, yn yr achos hwn, ni allwn gyflwyno datl o blaid datgelu y tu hwnt

i'r ystyriaethau hyn mewn ymgais i gydbwysu ein dadl yn erbyn y datgeliad. Nodir yng nghanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch y Prawf Budd y Cyhoedd *'nad yw buddiannau preifat y sawl sy'n gwneud y cais yr un fath â budd y cyhoedd, ac nad yw rhywbeth sydd efallai yn darparu ar gyfer y budd preifat hynny o reidrwydd o fudd i'r cyhoedd' yn ehangach* (tudalen 7, paragraff 13). O ystyried y dadleuon a amlinellwyd mewn ymateb i gwestiynau 4 a 6, credwn fod risg sylweddol nad yw budd busnes preifat yr ymgeisydd yn yr achos hwn o fudd i'r cyhoedd yn ehangach, ac mai dim ond niwed a fydd yn deillio o ddatgelu. Dyna pam ein bod yn cyflwyno'r ddatl dros gadarnhau adrannau 43(1) a 43(2). I egluro, rydym wedi defnyddio adran 43(1) mewn perthynas â bron yr holl dendr gan fod y dyluniadau a'r fethodoleg a amlinellir yn y ddogfen yn gyfrinach fasnach (fel yr amlinellir yng nghwestiwn 3), ac rydym wedi defnyddio adran 43(2) mewn perthynas â'r wybodaeth fasnachol sensitif sydd yn y tendr (fel cynhyrchion, gwasanaethau a gwybodaeth brisio).

Mae'n hanfodol bod TrC yn cymryd gofal i gynnal uniondeb ei broses gaffael er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian y trethdalwyr. Byddai datgelu'r wybodaeth hon yn cael effaith negyddol, ac arwyddocaol, ar yr uniondeb hwnnw. Pe bai TrC yn tansellio ymddiriedaeth a hyder y sefydliadau hynny sy'n awyddus i weithio gyda ni ar ein taith tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael rhwydwaith trafnidiaeth fforddiadwy o ansawdd uchel drwy ddatgelu eu cyfrinachau masnach a'u pwyntiau gwerthu unigryw i gystadleuwyr fel gwobr am lwyddo i sicrhau contract, mae'n debygol iawn y byddai'r sefydliadau hyn yn amharod i gymryd rhan mewn ymarfer tendro TrC (neu sector cyhoeddus ehangach) eto yn y dyfodol. Nid yw ystumio'r farchnad fel hyn er budd y cyhoedd, gan ei bod yn hanfodol ein bod yn denu cyfoeth o gystadleuwyr i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus Cymru, ansawdd y cynnyrch, ystod eang o atebion arloesol ac ymrwymiad i egwyddorion llesiant cenedlaethau'r dyfodol, cynaliadwyedd a gofynion economi gylchol. Nodir hefyd yng nghanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y Prawf Budd y Cyhoedd bod *'budd y cyhoedd mewn cynnal safonau uniondeb, sicrhau cyfiawnder a thriniaeth deg i bawb, sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus a sicrhau cystadleuaeth fasnachol deg mewn economi gymysg'* (tudalen 5 paragraff 9). Dyna'n union mae ein dadl dros ddal y wybodaeth hon yn ôl yn ei gyflawni.

13. Cadarnhewch pryd y dyfarnwyd y contract hwn a hefyd pryd y byddwch yn debygol o aildendro'r contract yn y dyfodol. Rhowch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sydd gennych fod y contractwr dan sylw yn mynd i dendro am gontractau tebyg yn y dyfodol gyda sefydliadau eraill, neu'n debygol o wneud hynny.

Dyfarnwyd y contract hwn ar 14 Awst 2020 – gweler:

https://www.sell2wales.gov.wales/search/show/search_view.aspx?ID=SEP345923.

Ni fyddwn yn aildendro'r union contract hwn gan nad yw'n dendr sy'n cael ei ailadrodd dro ar ôl tro. Fodd bynnag, os bydd angen ehangu i fannau gwaith pellach wrth i'n sefydliad dyfu, bydd ymarfer tendro tebyg yn cael ei gynnal gyda'r un gofynion yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a gofynion cynaliadwyedd ac economi gylchol Cymru. Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym ar hyn o bryd yn adolygu opsiynau swyddfeydd mewn dau leoliad yng Ngogledd Cymru. Amlinellir ein dadl y byddai'r contractwr dan sylw yn debygol o dendro am gontractau tebyg yn y dyfodol gyda sefydliadau eraill yn yr ateb i gwestiwn 8.a.